

❖ ROEDD GENNYF DEIMLADAU CYMYSG

*Mair***Darllen: Luc 2:15–20****Myfyrdod**

Roedd gennyf deimladau cymysg,
 cyn ac ar ôl y geni.
 A yw hynny yn eich synnu?
 Fe'm synnwyd i.
 Credais y byddwn wedi gwirioni ar enedigaeth y plentyn;
 onid felly y mae pob mam yn teimlo,
 felly pam nad oeddwn i'n byrlymu o lawenydd?
 Yr oeddwn yn hapus iawn wrth gwrs,
 rhan ohonof, beth bynnag,
 ond yr oedd cymaint o bethau nad oeddwn yn eu deall.
 Dyna i chi Joseff yn un peth.
 Nid fy mod yn cwyno ond yr oedd mor gefnogol –
 unwaith y daeth i ddygymod â'm beichiogrwydd,
 ni allai neb weld bai arno am gymryd amser i ddod ato'i hun.
 Ond, er hynny, yr oeddwn yn teimlo fod rhyw gysgod yn ei lygaid
 wrth iddo edrych ar Iesu,
 fel petai'n gofyn,
 'Beth ddigwyddodd *mewn gwirionedd?*'
 Yna fe gafwyd yr ymweliadau ar ôl y geni –
 y bugeiliaid, a'r dieithriaid o'r dwyrain a'u hanrhegion drudfawr.
 Rwy'n gwerthfawrogi, wedi'r cyfan, nad yw pob plentyn
 yn cael y sylw a gafodd fy mhlentyn i.
 Ond beth barodd iddynt ddod? – dyna sy'n fy mlino i.
 Beth oedd ystyr eu gwrogaeth?
 Peidiwch â chredu fy mod yn anniolchgar,
 ond fe fyddai'n hyfryd weithiau
 pe bai Iesu wedi cael bod yn blentyn cyffredin,
 a'r tri ohonom yn cael llonydd i fwynhau ein dyddiau –
 dim ffwdan,
 dim angylion,
 dim addewidion,
 dim ond y llawenydd o gael bod gyda'n gilydd.
 Ond wedi clywed geiriau'r hen Simeon diflannodd pob gobaith am hynny,
 y rhybudd rhyfedd hwnnw ynglŷn â'r dyfodol.
 Rwyf wedi ceisio anghofio,
 ond yn wir i chi ni allaf;
 mae'r pryder am drychineb ar y gorwel yno o hyd.
 Felly, roedd gennyf deimladau cymysg,
 cymysg iawn,
 ac y mae'r teimladau hynny yn parhau.
 Rwyf am orfoleddu,
 a mwynhau fy mhlentyn tra gallaf.
 Rwyf am gyfrif fy mendithion a diolch i Dduw am bopeth.
 Ond roedd pris i'w dalu eisoes,
 ac ym mherfeddion fy mod,
 roedd gennyf ryw deimlad
 fod y busnes yma o wasanaethferch yr Arglwydd,

o dderbyn ei ewyllys a gwasanaethu ei deyrnas,
yn golygu mwy o gost nag a ddychmygais erioed,
pris y byddai'n llawer iawn gwell gennyf beidio â'i dalu.

Gweddi

Arglwydd,
ochr yn ochr â bendithion disgybl
y mae pris i'w dalu –
aberthau,
galwadau,
cyfrifoldebau y mae'n rhaid eu derbyn.
Er mor anodd deall bob amser,
nid oes llawenydd heb dristwch,
nid oes pleser heb boen,
nid oes bywyd heb angau.
Ond er cymaint y draul
y mae'r wobwr yn fwy.
Helpa ni, felly, i roi heb ystyried y pris,
a rho i ni lawenhau yn y cyfan sydd gennyf ti yn stôr
i ni ac i'th bobl ym mhob man,
drwy Iesu Grist ein Harglwydd.

Nick Fawcett, cyf. Olaf Davies